# Polisi Ymddygiad a Pherthnasoedd

YSGOL GYMRAEG RHYS PRICHARD

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

*“Rwy'n credu'n gryf bod dyhead ym mhob plentyn, pa mor anweledig, gelyniaethus neu wrthodus bynnag y gall ymddangos, i gael ei weld, ei adnabod a'i ddeall yn iawn.”*

(cyfieithiad o eiriau Louise Bomber 2007)

*“Fel oedolion mae cyfrifoldeb moesegol ar y cyd arnon ni i sicrhau bod bywyd pob plentyn a pherson ifanc yn ddiogel a sefydlog - beth bynnag ein rôl neu'r cyd-destun.”*

(cyfieithiad o eiriau Louise Bomber 2012)

## Cyflwyniad

***Dylid darllen y polisi hwn ochr yn ochr â pholisïau Presenoldeb a Bwlio'r Awdurdod Lleol.***

Yn Ysgol Gymraeg Rhys Prichard mae meithrin perthnasoedd cadarnhaol ar draws cymuned ein hysgol a byw'n unol â'n gwerthoedd wrth wraidd ein hethos a'n diwylliant. Mae ymddygiad cadarnhaol yn deillio o berthnasoedd rhagorol mewn cymuned, yn ogystal â chwricwlwm wedi'i gynllunio a'i gyflwyno'n dda sy'n ysbrydoli plant i ddysgu. Mae angen addysgu, modelu, disgwyl a chanmol ymddygiad cadarnhaol.
Ein nod yw creu amgylchedd lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel, lle mae perthnasoedd yn seiliedig ar barch o'r ddwy ochr, a lle mae dealltwriaeth dda o anghenion ein dysgwyr. Trwy greu awyrgylch cynnes a gwaredu unrhyw rwystrau posibl i ddysgu, rydym yn rhoi'r sylfeini i ddysgwyr sy'n eu galluogi i ffynnu fel unigolion iach, hyderus. Dim ond drwy ymagwedd gyson at hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol y gellir cyflawni hyn.
Mae ethos yr ysgol yn adlewyrchu derbyn a pharchu eraill, beth bynnag fo'u hanghenion, eu cefndir neu eu gallu. Mae staff ein hysgol yn cydnabod mai math o gyfathrebu yw ymddygiad, ac yn sylweddoli bod gan ddysgwyr anghenion cymhleth ac eang. Felly gall plentyn sydd mewn trallod arddangos ymddygiadau sy'n ein herio ni fel oedolion.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu diwylliant, pwrpas a rheolaeth ymddygiad dysgwyr yn ein hysgol, sy'n anelu at gefnogi Pedwar Diben y cwricwlwm yn y nod o ddatblygu pobl ifanc i fod yn:

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau.
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy’n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a’u gwaith.
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.
- Unigolion iach, hyderus sy’n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae gweithredu ein polisi yn deg ac yn gyson yn gyfrifoldeb ar bawb!

## Diwylliant ac Amcanion

- Gall pob plentyn ffynnu.
- Mae perthnasoedd cadarnhaol yn sylfaenol bwysig i ymddygiad cadarnhaol.

- Rydym yn disgwyl i bawb 'Fod yn Barod, yn Ddiogel, ac yn Garedig' ond efallai fydd angen cymorth ychwanegol ac addasiadau rhesymol ar rai plant i gyrraedd yr hyn a ddisgwylir.
- Math o gyfathrebu yw ymddygiad a gall fod yn arwydd o blentyn mewn trallod.
- Mae adnabod ein dysgwyr yn allweddol! Mae deall anghenion, amgylchiadau ac achosion yr ymddygiad yn ein helpu i weithredu yn y ffordd decaf posibl i'r plentyn hwnnw.
- Gellir cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i newid ei ymddygiad.

Yn ein hysgol ni mae gennym ddealltwriaeth ac empathi tuag at ymddygiad, ac rydym yn treulio amser yn dod i adnabod pobl ifanc ein hysgol yn dda, gan ddysgu beth yw eu diddordebau, eu hanghenion unigol a chyd-destun eu magwraeth. Mae hyn yn cynnwys eu profiadau o fywyd ysgol, teulu a chymuned.

Adeiledir ein diwylliant ar yr egwyddorion a'r credoau craidd canlynol:

- Trwy addysgu o ansawdd yn gyntaf a chymorth bugeiliol cyfannol gallwn gael gwared ar rwystrau i ddysgu (ymateb graddedig)
- Mae creu amgylchedd diogel a meithringar yn cefnogi gwytnwch ac yn lleihau sbardunau ar gyfer pobl ifanc.
- Mae systemau cydnabod effeithiol yn cynyddu hunan-barch a chyflawniad.
- Mae atgyfnerthu cadarnhaol yn fwy tebygol o newid ymddygiad na chosbau.
- Bydd gwerthoedd yr ysgol yn llywio'r penderfyniadau yn achos oedolion a dysgwyr.
- Mae ymddygiad oedolion yn effeithio ar ymatebion ac ymddygiad plant.

I'r perwyl hwn, mae ein hysgol wedi ymrwymo i arferion addysgol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn mewn athroniaeth a dulliau gweithio mewn amgylchedd sydd ag ethos adferol yn rhan annatod ohono, sydd hefyd yn cynnwys yr arferion a anogir gan *Trauma Informed Schools UK* sy'n cynnwys egwyddorion **Amddiffyn, Uniaethu, Rheoleiddio ac Adlewyrchu.**

**Dulliau Adferol**

Mae dull adferol yn ethos ac yn sylfaen werthoedd ar gyfer gweithio gyda phobl, yn hytrach nag iddyn nhw neu ar eu cyfer, lle bynnag y bo modd.

Pwrpas cyffredinol bod yn adferol yw canolbwyntio ar feithrin, cynnal ac atgyweirio perthnasoedd. Mae dulliau adferol yn annog meddylfryd cyson, sylfaen werthoedd, a diwylliant sefydliadol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cynnwys gwaith adferol yn y modd mwyaf llwyddiannus a chynaliadwy. Mae ethos sy'n canolbwyntio ar berthynas gyson yn gwneud gwerthoedd yn weladwy mewn arferion.

Mae'r dull yn cynnig dewis o sgiliau ac ymyriadau adferol priodol i ddiwallu anghenion a chyd-destunau gwahanol. Mae hyn yn cynnwys sgiliau rhagweithiol, ymgysylltu a thechnegau atal, yn ogystal ag ymyriadau datrys problemau ymatebol. Y ffordd o greu

cyfalaf cymdeithasol mewn cymunedau yw trwy ddysgu pobl sut mae datrys problemau'n dda, heb fod angen cosbau ffurfiol allanol bob amser.

Mae dulliau adferol yn ystod o ddulliau syml dysgadwy, ond maent wastad yn cynnal yr un sylfaen werthoedd. Mae hyn yn cynnwys cydraddoldeb a chynhwysiant, peidio â barnu, atebolrwydd a chyfrifoldeb, adfer, grymuso, hygyrchedd, bod yn agored a pharch o'r ddwy ochr.

Mewn cyfiawnder troseddol, mae "cyfiawnder" adferol yn dod â'r rhai gafodd eu niweidio gan droseddu, a'r rhai sy'n gyfrifol am y niwed, at ei gilydd i gyfathrebu'n ddiogel, gan alluogi pawb i chwarae rhan a dweud eu dweud er mwyn gwella'r niwed a chanfod ffordd gadarnhaol ymlaen.
Mae'r corff cyfan o sgiliau a phrosesau adferol yn cynnwys y technegau "cyfiawnder" adferol adweithiol, megis cynadledda adferol, ar gyfer y rhai sy'n cael eu niweidio a'u niweidwyr, ond mae wedi datblygu arferion adferol ymhellach. Mae'n cydnabod yr angen cyfochrog i adeiladu prosesau ymgysylltu a chyfathrebu cadarnhaol ar gyfer pobl a'u cymunedau a lefelau ymyrraeth pwrpasol cymesur.

Amcanion y dulliau adferol yw:
• meithrin, datblygu ac atgyweirio perthnasoedd yn rhagweithiol
• creu ymdeimlad o gymuned, cysylltiad a pherthyn cadarnhaol mewn teuluoedd, cymunedau, asiantaethau ac ardaloedd
• annog mwy o rannu cyfrifoldeb ac atebolrwydd i ddiwallu anghenion
• datrys problemau trwy ymgysylltu cynhwysol
• gwella llythrennedd emosiynol, ymddygiadau empathig a datblygu sgiliau pro-gymdeithasol
• darparu ethos cymunedol cryf a rennir a sylfaen graidd ar gyfer gwaith cyfiawnder adferol ymatebol
• cynyddu cyfalaf cymdeithasol a chyd-gynhyrchu trwy roi'r sgiliau i gymunedau gysylltu a datrys problemau eu hunain

Ffynhonnell: Partneriaeth Dulliau Adferol Cymru (WRAP)

**Amddiffyn**

Mwy o 'arwyddion diogelwch' ym mhob agwedd ar y diwrnod ysgol; 'cwrdd a chyfarch' wrth ddrws yr ystafell ddosbarth, a pholisi drws agored ar gyfer trafodaethau anffurfiol gyda rhieni/gofalwyr.

Staff wedi'u hyfforddi mewn dulliau rhyngweithio 'PACE' (Hughes 2015); bod yn gynnes, pwysleisgar, chwareus a chwilfrydig (wedi'i brofi i fynd â phlant allan o sefyllfaoedd rhedeg/cael braw/rhewi).

Staff yn sicrhau bod y rhyngweithio â phlant yn gymdeithasol ymgysylltiol ac nid yn gymdeithasol amddiffynnol, er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd plant yn uniaethu'n amddiffynnol (rhedeg/cael braw/rhewi).

Ymrwymiad ysgol gyfan i roi'r gorau i bob defnydd o leisiau llym, gweiddi, rhoi i lawr, beirniadu a chywilyddio (profwyd bod hyn yn niweidiol yn seicolegol ac yn niwrolegol).

Staff yn 'atgyweirio'n rhyngweithiol' achlysuron pan maen nhw eu hunain yn bod yn amddiffynnol.

Ymyriadau addysgeg sy'n helpu staff i ddod i adnabod plant yn well fel unigolion e.e. ‘Rwy'n dymuno byddai fy athro'n gwybod’. (Yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, pwy sy'n bwysig iddyn nhw, eu breuddwydion, eu gobeithion). Mae hyn yn allweddol i alluogi plant i deimlo'n ddigon diogel i siarad, os dymunant, am brofiadau bywyd poenus, sy'n ymyrryd â'u gallu i ddysgu a'u hansawdd bywyd.

Mae gan bob plentyn fynediad hwylus bob dydd at o leiaf un oedolyn sydd ar gael yn emosiynol ac mae'n gwybod pryd a ble i ddod o hyd i'r oedolyn hwnnw. Os nad yw'r plentyn yn dymuno cysylltu â'r oedolyn penodedig, deuir o hyd i oedolyn arall.

Mae staff yr ysgol yn addasu disgwyliadau plant agored i niwed i gyfateb â'u galluoedd datblygiadol a'u profiad o straen trawmatig. Mae hyn yn cynnwys tynnu plant agored i niwed a phlant sydd wedi dioddef trawma allan o sefyllfaoedd nad ydynt yn ymdopi â nhw'n dda mewn ffordd garedig nad yw'n beirniadu (e.e. gall plant sy'n cael eu sbarduno'n barhaus i gyflyrau o banig yn y prif faes chwarae gael mynediad at ardaloedd tawelach, llai gydag oedolion sy'n rheoleiddio'n emosiynol).

Darparu system hunan-atgyfeirio glir, gyfrinachol nad yw'n dwyn cywilydd ar gyfer amser help/siarad plant.
Meithrin staff yn y fath fodd fel eu bod wir yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u rheoli'n emosiynol, ac wrth wneud hynny, eu cefnogi i ryngweithio trwy gydol y diwrnod ysgol gydag ymgysylltiad cymdeithasol cadarnhaol yn hytrach na bod yn amddiffynnol.

**Uniaethu**

Ymrwymiad ysgol gyfan i alluogi plant i weld eu hunain, eu perthnasoedd a'r byd yn gadarnhaol, yn hytrach na thrwy lens o fygythiad, perygl neu roi bai ar eu hunain.
Rhoddir cyfleoedd perthynol dro ar ôl tro i blant (gydag oedolion sydd ar gael yn emosiynol) newid o 'ymddiriedaeth wedi'i rhwystro' (dim yn teimlo'n ddiogel yn seicolegol gyda neb) i ymddiriedaeth, ac o hunangymorth i 'chwilio am help'.

**Rheoleiddio**

Ymyriadau perthynol wedi'u cynllunio'n benodol i ostwng lefelau hormonau straen (e.e. o'r gwenwynig i'r goddefgar) mewn plant sy'n agored i niwed, gan eu galluogi i ymdawelu a theimlo'n ddiogel. Mae hyn er mwyn cefnogi dysgu ac ansawdd bywyd, ac er mwyn diogelu rhag salwch corfforol a meddyliol a achosir gan straen, nawr ac yn ddiweddarach mewn bywyd.
Ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n anelu at atgyweirio niwed seicolegol a niwed i'r ymennydd a achosir gan brofiadau bywyd trawmatig, trwy ryngweithiadau cyfoethog a chwareus rhwng oedolyn a phlentyn sy'n rheoleiddio'n emosiynol.

Bod llesiant emosiynol staff a'u rheolaeth emosiynol yn cael eu trin fel blaenoriaeth i atal llosgi allan, atal absenoldeb cysylltiedig â straen, neu atal pobl yn gadael y proffesiwn trwy salwch cysylltiedig â straen, trawma eilaidd a/neu gywilydd neu deimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol neu eu bod yn cael eu beio.

**Adlewyrchu**

Hyfforddi a datblygu staff gan gynnwys sut mae gwrando'n dda, trafod, cael empathi a dealltwriaeth (yn hytrach na gofyn cyfres o gwestiynau/pregethu).

Darparu sgiliau ac adnoddau i helpu rhieni a staff i gael sgyrsiau empathig ystyrlon gyda phlant sydd am siarad am eu bywydau.
Mae hyn er mwyn grymuso plant i reoli eu sefyllfaoedd cartref a'u bywyd yn gyffredinol yn well.
Yng nghyd-destun perthynas sefydledig a dibynadwy gydag aelod o staff (cynghrair waith), rhoddir y modd a'r cyfle i blant symboleiddio profiadau bywyd poenus trwy ddelweddau yn ogystal â geiriau, fel rhan allweddol o 'weithio trwy' y profiadau hyn ac ail-atgyfnerthu'r cof. Mae'r dulliau yn cynnwys darparu gwahanol fathau o fynegiant, e.e. celf/chwarae/drama/cerddoriaeth/tywod/taflenni gwaith emosiynau/cardiau emosiynau.

**Amcanion ein Polisi Perthynas**

Ein nod trwy'r polisi hwn yw:

- adeiladu cymuned seiliedig ar werthoedd.
- meithrin perthnasoedd rhagorol rhwng holl aelodau ein cymuned.
- sicrhau dealltwriaeth drylwyr o anghenion ac amgylchiadau.
- sicrhau bod disgwyliadau a strategaethau yn cael eu hadnabod a'u deall gan bawb.
- gosod disgwyliadau uchel a darparu cymorth i ddysgwyr gyflawni'r rhain.
- dad-ddwysáu sefyllfaoedd mewn modd tawel a rhagweithiol.
- gweithredu ymagweddau cyfannol, integredig a chyson ar draws yr ysgol gyfan.
- cydnabod ymddygiad sy'n mynd yr ail filltir.
- hyrwyddo dulliau adferol yn lle cosbedigaethau.
- sicrhau ymwybyddiaeth o'r ffiniau a'r canlyniadau.
- sicrhau bod dysgwyr yn dysgu heb rwystrau a chyfyngiadau.
- sicrhau nad yw ymddygiad yn cyfyngu ar gyfranogiad mewn bywyd ysgol.
- hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch a dathlu amrywiaeth.
- helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau bywyd, gan annog hunanhyder, hunan-reoleiddio ac annibyniaeth.
- datblygu ac atgyfnerthu egwyddorion dinasyddiaeth dda.
- sicrhau bod ymyriadau corfforol cyfyngol yn cael eu defnyddio fel dewis olaf yn unig a bod staff yn cael cyfle i fynychu'r hyfforddiant priodol er mwyn deall pwysigrwydd atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu a bod yn hyderus ac yn gymwys i wneud hynny. Mae'r ysgol yn cymeradwyo dulliau a addysgir gan TEAM TEACH fel technegau priodol diogel a chefnogol ar gyfer anghenion ein dysgwyr. Rhaid i unrhyw ddefnydd o rym rhesymol mewn ysgolion ddilyn y canllawiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, 'Ymyriad Diogel ac Effeithiol - defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau' Mawrth 2013

**Rolau a Chyfrifoldebau**

Mae'n hanfodol bod pawb yn gweithredu'r polisi hwn yn gyson ond yn hyblyg, er mwyn ystyried anghenion amrywiol a chymhleth y disgyblion sy'n mynychu ein hysgol. Dylai'r polisi

hefyd hyrwyddo presenoldeb rheolaidd, moeseg waith dda, hunan-ddisgyblaeth a pharch at eraill.

Er mwyn ein helpu i gyflawni ein hamcanion, byddwn ni'n:

● darparu set glir o reolau, gwobrau a chanlyniadau trwy ymgynghori â staff, plant, rhieni ac aelodau'r corff llywodraethu.

● rhoi cyhoeddusrwydd i'r uchod fel bod pawb yn glir am yr hyn a ddisgwylir a bod dulliau o reoli ymddygiad yn gyson ar draws yr ysgol.

● sicrhau bod arferion meithrin cyson ar draws yr ysgol.

● sicrhau bod dull seiliedig ar drawma wedi'i wreiddio ar draws yr ysgol fel bod iechyd meddwl a llesiant disgyblion a staff yn flaenoriaeth.

● sicrhau bod plant yn deall ystyr ymddygiad amhriodol ac anniogel a bwlio ac yn gwybod sut bydd yr ysgol yn delio ag ef.

Mae ein Polisi Ymddygiad a Pherthnasoedd yn cydnabod dyletswyddau cyfreithiol yr ysgol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â diogelu ac mewn perthynas â disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Yn ein hysgol, disgwylir i bob disgybl:

● Parchu eu hunain ac eraill
● Gwrando ar gyfarwyddiadau a'u dilyn
● Bod yn garedig, yn deg ac yn gwrtais
● Anwybyddu pethau a allai dynnu eu sylw
● Ymddwyn yn ddiogel

Mae'r disgwyliadau hyn yn cael eu harddangos yn glir ym mhob ystafell ddosbarth ac o amgylch yr adeilad mewn mannau cymunedol. Mae staff yn atgyfnerthu'r arddangosfeydd hyn trwy dynnu sylw atynt bob dydd fel rhan o'u strategaethau ar gyfer rheoli'r ystafell ddosbarth.

- Mae gan bawb yn ein hysgol yr hawl i deimlo'n ddiogel, a chofir am hyn wrth ddelio â phob achos o drais.

- Mae ymosodiadau corfforol a geiriol, a bwlio yn annerbyniol a byddant yn cael eu herio a'u rheoli.

- Ymdrinnir yn ddi-oed â phob achos o fwlio, boed yn un mae staff yn sylwi arno neu'n un y rhoddir gwybod amdano gan ddisgybl neu riant, a hynny ar y sail fod bwlio'n annerbyniol.

- Bydd rhieni/gofalwyr bob amser yn cael gwybod os yw eu plentyn wedi bod yn gorfforol ymosodol tuag at ddisgyblion neu staff eraill, neu os ydynt wedi cyflawni neu ddioddef bwlio.

Ein nod yw gosod disgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth, a disgwylir i bob disgybl ymddwyn mewn ffordd sy'n bodloni'r disgwyliadau hyn:
1. Bod yn barod i ddysgu
2. Bod yn barchus i staff a chyfoedion
3. Bod yn ddiogel

**Myfyrwyr sy'n Barod i Ddysgu:**
1. Yn cyrraedd yr ysgol a'r holl wersi ar amser
2. Yn meddu ar bopeth sydd ei angen arnyn nhw ar gyfer y diwrnod ysgol
3. Yn gweithio'n galed ym mhob gwers ac yn ymgysylltu â'r holl dasgau
4. Yn dangos ymdrech wych mewn gwersi a gweithgareddau allgyrsiol

**Disgyblion sy'n Barchus:**
1. Yn gwisgo'u gwisg yn gywir a chyda balchder
2. Yn gwrtais i'r holl staff a'u cyfoedion
3. Yn aros yn dawel mewn gwersi pan fydd athrawon neu eu cyfoedion yn siarad

**Disgyblion sy'n Ddiogel:**
1. Yn cerdded o gwmpas yr ysgol yn bwyllog ac yn dawel
2. Yn cadw eu dwylo a'u traed iddyn nhw eu hunain
3. Yn cyrraedd a gadael yr ystafelloedd dosbarth yn bwyllog ac yn dawel.
4. Yn dilyn holl gyfarwyddiadau'r athro/athrawes
5. Yn diffodd eu ffonau symudol ac yn eu cadw yn eu bagiau

**Mae Perthnasoedd yn ALLWEDDOL**

**MEITHRIN PERTHNASOEDD DA**

Mae ymchwil wedi dangos bod perthynas dda yn ffactor arwyddocaol wrth hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Mae hyn yn atal sefyllfaoedd anodd rhag codi yn y lle cyntaf ac o gymorth pan fydd heriau'n codi. Mae perthnasoedd yn datblygu trwy'r hyn sy'n cael ei ddweud ac nad yw'n cael ei ddweud, a'r negeseuon a roddir am werthoedd a disgwyliadau.

Gellir crynhoi camau penodol wrth ddatblygu cynhwysiant a pherthnasoedd da fel a ganlyn:

- Cyfarch yn ôl enw ac adnabod ein dysgwyr.
- Cynnig cysur mewn trallod.

- Canfod rhinweddau cadarnhaol a chryfderau POB plentyn.
- Rhoi adborth cadarnhaol rheolaidd sy'n benodol, dilys a byr.
- Dangos cred, ymddiriedaeth, a chymorth i gyrraedd disgwyliadau uchel.
- Osgoi trafod anawsterau neu ymddygiad y dysgwyr o'u blaenau (oni bai eu bod yn rhan o'r ymyriad)
- Osgoi trafod ein hanawsterau ein hunain o flaen y dysgwyr.
- Dangos eu bod yn derbyn y person ond nid ei ymddygiad.
- Modelu a chanolbwyntio ar yr hyn y dylid ei wneud yn hytrach na'r hyn na ddylid ei wneud.
- Defnyddio datganiadau 'fi' yn hytrach na datganiadau 'ti' sy'n gwneud sylwadau ar ymddygiad.
- Dim labelu - dim cyfeirio at y plentyn fel un drwg, anodd, heriol.
- Rhoi dewisiadau sy'n rhoi rhywfaint o reolaeth i'r myfyriwr ac yn hyrwyddo hunan-effeithiolrwydd.
- Sicrhau profiadau sy'n gwarantu llwyddiant - pa mor fach bynnag.
- Sicrhau bod tegwch – rhoi cyfle i bawb.
- Fframio ymddygiad yn nhermau hawliau tegwch, e.e. "Does dim hawl gyda ti i wneud niwed i fyfyriwr arall, a does dim hawl gyda myfyriwr arall i wneud niwed i ti."
- Ymddiried mewn dysgwyr trwy roi cyfrifoldeb iddynt.
- Byth gwneud cymariaethau anffafriol na rhoi rhywun i lawr.
- Osgoi proffwydoliaethau hunangyflawnol.
- Gwneud popeth posibl i osgoi cosbau sy'n ymwneud â symud rhywun neu wahardd.
- Croesawu myfyrwyr yn ôl os ydynt wedi bod yn absennol.
- Siarad am y myfyriwr yn gadarnhaol i eraill.

Bydd pawb yn bodloni amcanion y polisi hwn.

**YR HOLL STAFF:**

Bydd yr holl oedolion yn ein hysgol yn cofio ac yn defnyddio'r un egwyddorion â'r plant:

Mae rheoli ymddygiad yn y dosbarth yn llwyddiannus yn dibynnu ar ansawdd ein perthynas â'r plant. Mae athrawon a staff yn sylweddoli bod yn rhaid i ni gynyddu ymddiriedaeth ac empathi gyda'r plant gan fod hyn yn gosod y sail ar gyfer pob tasg sy'n ymwneud â rheoli ymddygiad yn y dyfodol ac felly dysgu.

**Bod yn Barod, Cynllunio, Personoli ac Ymgysylltu**

- Cwrdd â'r plant a'u cyfarch wrth iddynt gyrraedd.
- Gwybod beth yw diddordebau, anghenion ac ymddygiadau cysylltiedig y dysgwr.
- Cynllunio/cefnogi gwersi sy'n ymgysylltu, herio a hyrwyddo annibyniaeth.
- Mae gwersi yn cael eu gwahaniaethu'n ofalus, gan gyfateb disgwyliadau gwaith i allu a cham datblygiadol y dysgwr.
- Personoli'r dysgu trwy wneud addasiadau rhesymol lle bo angen i ddiwallu angen.
- Rheoli'r amgylchedd yn ofalus, gan ystyried amodau a sbardunau ar gyfer ymddygiad.
- Deall ymddygiadau sy'n gysylltiedig â thrawma.

**Bod yn Ddiogel, Rhagflaenu, Atal, Ailgyfeirio a Chefnogi**

- Arsylwi ymddygiadau unigol/dosbarth, addasu'r amgylchedd a gwneud addasiadau rhesymol i leihau unrhyw darfu.
- Atal a dad-ddwysáu cyn cosbi.
- Bod yn ymwybodol o ymddygiadau a allai fod â goblygiadau diogelu neu a allai achosi pryder a rhoi gwybod amdanynt.
- Dim byth anwybyddu na cherdded heibio i ddysgwyr sy'n gwneud dewisiadau gwael/anniogel.
- Dilyn trwyddo bob tro, cadw perchnogaeth a chymryd rhan mewn deialog fyfyriol/adferol.
- Cofnodi ymddygiadau ar blatfformau priodol.

**Bod yn Garedig, yn Gyson, yn Bwyllog a Gwrando**

- Modelu'r gwerthoedd a meithrin perthnasoedd rhagorol.
- Gwrando ar ddysgwyr a rhoi cyfle iddynt gyfathrebu.
- Annog a chanmol ymddygiadau cadarnhaol gan ddefnyddio cydnabyddiaeth weladwy.
- Ceryddu'r ymddygiad, nid yr unigolyn.
- Cofio am yr her unigol y mae pob dysgwr yn ei phrofi.
- Bod yn bwyllog a chaniatáu amser ystyried.
- Cydweithio â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol.

**Staff - Barod i Ddysgu, Bod yn Barchus, Bod yn Ddiogel**

Er mwyn i'n disgyblion ddangos eu bod yn barod i ddysgu, yn barchus ac yn ddiogel, yna rhaid i'n staff ddangos ymrwymiad tebyg i hyn a dangos beth yw'r rhain.

**Staff sy'n Barod i Ddysgu**

1. Dod i'r dosbarth gyda phob agwedd ar y wers wedi'i pharatoi
2. Cael trefn groesawu ar gyfer pob gwers fel bod pob disgybl yn teimlo bod rhywun yn sylwi arno
3. Cynnig tasgau gwahaniaethol ar gyfer yr ystod lawn o anghenion disgyblion (dysgu, cymdeithasol ac emosiynol)
4. Gosod a marcio gwaith disgyblion mewn modd amserol

**Staff sy'n Barchus**

1. Galw disgyblion wrth eu henw
2. Rhoi dechrau newydd
3. Rhyngweithio'n barchus â disgyblion, gyda charedigrwydd bob amser o'r pwys mwyaf
4. Gwrando ar eu disgyblion, parchu eu barn ac ateb eu cwestiynau
5. Osgoi cywilyddio disgyblion – felly ceryddu a chosbi yn breifat, lle bo'n bosibl

**Staff sy'n Ddiogel**

1. Rhoi ffiniau clir ar waith i gadw pawb yn ddiogel
2. Cynnal ffiniau priodol – a gofyn i ddisgyblion wneud yr un peth – i sicrhau bod pawb yn y dosbarth yn teimlo'n ddiogel
3. Ymdrechu i ddysgu am bob disgybl, gan gofio, sylwi a bod yn chwilfrydig pan fydd pethau'n ymddangos fel petaent yn mynd o'i le
4. Amddiffyn y bregus a bod yn hael wrth roi barn
5. Llunio strategaethau gyda disgyblion ar gyfer ymdopi â straen profion/arholiadau e.e. technegau ymlacio, pwysigrwydd ymarfer corff, diet a chwsg
6. Pwyso a mesur anghenion eu dosbarth ac weithiau eu synnu nhw drwy drîn neu ddathliad

**CYSONDEBAU**

Wrth weithredu'r polisi Ymddygiad a Pherthnasoedd, rydym yn cydnabod yr angen am gysondeb. Mae'n bwysig ein bod yn deall nad yw cysondeb yn golygu diffyg hyblygrwydd neu bersonoli.

Mae tegwch yn cydnabod yr angen i drin pobl yn wahanol, yn dibynnu ar angen, er mwyn sicrhau cydraddoldeb.

Gellir diffinio sut rydym yn sicrhau cysondeb fel a ganlyn:

- Diwylliant cyson - pawb yn byw ein gwerthoedd ysgol.
- Iaith gyson, disgwyliadau syml a chlir, wedi'u hadlewyrchu mewn sgyrsiau am ymddygiad.

- Dilyniant cyson sy'n sicrhau "sicrwydd" ar lefel ystafell ddosbarth a lefel reoli.
- Modelu cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn gyson.
- Trefn gyson ar gyfer atgyfnerthu, annog a dathlu ymddygiadau cadarnhaol.
- Ffiniau a chanlyniadau cyson wedi'u diffinio, eu cytuno a'u cymhwyso ar lefel unigol neu ystafell ddosbarth.
- Parch yn cael ei ddangos gan oedolion - hyd yn oed mewn sefyllfaoedd anodd.
- Modelu rheolaeth emosiynol a chyfyngu yn gyson.
- Atgyfnerthu arferion cyson mewn ystafelloedd dosbarth, o amgylch y safle ac yn y gymuned ehangach.

**"Daw cysondeb o ymddygiad oedolion ac nid yn unig yn y modd caiff gweithdrefn ei gweithredu. Nid yw dull cyson gwirioneddol gynaliadwy yn dod o becyn cymorth o strategaethau. Y peth allweddol yw datblygu cysondeb sy'n cyrraedd pob elfen o ryngweithio ar ymddygiad."**

**Paul Dix**

## Dulliau Adferol

Yn ein hysgol rydym wedi ymrwymo i gofleidio'r athroniaeth o ddefnyddio dulliau adferol a elwir hefyd yn ymarfer adferol i greu amgylchedd dysgu cytûn, lle mae disgyblion yn cael eu cefnogi ac yn gallu hunan-reoli eu hymddygiad a'u dysgu eu hunain.

Canfuwyd bod dulliau adferol yn effeithiol iawn wrth wella ymddygiad ac agwedd gan eu bod yn hyrwyddo cydnabod emosiynau, siarad yn agored ac yn onest, cymryd cyfrifoldeb, deall emosiynau pobl eraill, cydnabod niwed fel ymateb priodol i wrthdaro, a, thrwy wneud hynny, yn creu atebolrwydd.
Nid bwriad dulliau adferol yw disodli'r defnydd o ganlyniadau ond cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau, ac, yn hollbwysig, rhoi inni ddealltwriaeth o'r angen am adfer y berthynas sydd wedi'i niweidio gan yr ymddygiad.

**Mae dulliau adferol wedi'u seilio ar bedair prif nodwedd:**

PARCH
- at bawb trwy wrando ar farn eraill a dysgu sut mae eu gwerthfawrogi.

CYFRIFOLDEB
- cymryd cyfrifoldeb dros eich gweithredoedd eich hun.

ATGYWEIRIO
- datblygu proses o fewn ein cymuned ysgol fel bod gan ei haelodau unigol y sgiliau angenrheidiol i nodi atebion sy'n atgyweirio niwed, tra'n cynnal ac adfer perthnasoedd gwaith cadarnhaol sydd yn ceisio lleihau achosion o'r fath rhag digwydd eto.

AIL-INTEGREIDDIO

- gweithio trwy broses strwythuredig, gefnogol sy'n anelu at ddod o hyd i ddatrysiad cadarnhaol i'r broblem sy'n cael ei gefnogi a'i gytuno gan bob parti ac sy'n caniatáu i bobl ifanc ailymgysylltu â'u dysgu.

## AMGYLCHEDD DYSGU

Mae disgwyliadau clir yn rhan o'n Polisi Addysgu a Dysgu, sy'n cynnwys cynllun ystafell ddosbarth, iechyd a diogelwch, arddangosfeydd ac adnoddau.

O ran hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, ymhlith y disgwyliadau amgylcheddol allweddol y mae:

- Disgwyliadau ymddygiad a gwerthoedd ysgol wedi'u harddangos yn glir.
- Lle i sicrhau bod dysgwyr wedi'u rheoleiddio cymaint ag sy'n bosibl, a bod ganddynt y cyfle i adlewyrchu/hunan-reoleiddio mewn dosbarth lle bo'r angen (cornel ddarllen amlbwrpas)
- Mae'r ystafell ddosbarth wedi'i sefydlu i hyrwyddo cyfrifoldeb ac annibyniaeth e.e. adnoddau wedi'u labelu.
- Systemau cydnabyddiaeth sy'n weladwy e.e., bwrdd cydnabyddiaeth a thocynnau dosbarth
- Amserlenni gweledol/byrddau nawr a nesaf yn amlwg
- Cynlluniau eistedd gofalus (gan sicrhau bod anghenion synhwyraidd yn cael eu diwallu)
- Arddangosfeydd sy'n annog disgyblion i ofyn am help a chadw'n ddiogel e.e., gwybodaeth am fwlio, diogelwch ar-lein, ble i gael help ac ati)
- Arddangos gwaith dysgwyr i gynyddu hyder a hunan-hyder.
- Blychau gofid i helpu dysgwyr i siarad am eu hemosiynau.

Mae ein hysgol hefyd yn ystyried y defnydd o oleuadau a cherddoriaeth i gefnogi hinsawdd ar gyfer dysgu ac yn ystyried sbardunau amgylcheddol ac anghenion synhwyraidd pob dysgwr.

## DAD-DDWYSÁU

Mae ein hysgol yn rhoi pwyslais sylweddol ar ddad-ddwysáu a phwysigrwydd gweithio'n rhagweithiol wrth fabwysiadu technegau a strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n anelu at gefnogi pobl ifanc drwy'r broses o gyd-reoleiddio.

Rydym yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y person, sy'n anelu at ddeall a diwallu anghenion unigolion cyn i anawsterau godi.

Ein nod yw sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant a chymorth rheolaidd i sicrhau eu bod yn teimlo'n hyderus ac yn meddu ar y sgiliau i ddad-ddwysáu sefyllfaoedd. Mae hyn yn cynnwys y gallu i adnabod arwyddion ymddygiadol cynnar unigolyn (corfforol, emosiynol, cyfathrebu) a'r gallu i lunio strategaethau cymorth sy'n atal sefyllfaoedd rhag dwysáu.

**Ymagwedd ymatebol i ymddygiad**

**Canlyniadau cymesur a chynhyrchiol.**

Nid yw darparu'r cymorth emosiynol priodol ac atgyfnerthu ffiniau yn annibynnol ar ei gilydd. Dylai canlyniadau, os ydynt yn cael eu cymhwyso yn y ffordd gywir, gefnogi plentyn i ddeall rheolau/gwerthoedd yr ysgol yn well ac ni ddylent byth fod yn ymwneud â 'chosb'. Dylai staff ganmol ymddygiad maen nhw eisiau ei weld yn gyson ac atal ymddygiadau negyddol trwy ein hymateb ataliol.
I lawer o ddysgwyr, neges fach i atgoffa yw'r unig beth sydd ei angen.
Bydd llawer o strategaethau 'ysgol gyfan' sy'n cefnogi addysgu o ansawdd da yn atal ymddygiad rhag gwaethygu.

Wrth ystyried y defnydd o ganlyniadau, bydd staff yn sicrhau eu bod bob amser yn cyflawni unrhyw ganlyniadau yn bwyllog ac yn ofalus**.**
Wrth ystyried a yw canlyniad yn rhesymol, rhaid i staff ystyried a yw'n gymesur ag amgylchiadau'r achos ac ystyried unrhyw amgylchiadau arbennig gan gynnwys oedran y dysgwr, anghenion ychwanegol ac unrhyw ofynion crefyddol sy'n effeithio arnynt.

Mae pob aelod o staff yn ein hysgol yn dilyn rhai rheolau syml wrth ystyried rhoi'r canlyniadau ar waith.

GWNEWCH Y CANLYNOL:

- Cymerwch eiliad i chi'ch hun - weithiau byddwn ni'r oedolion hyd yn oed yn ymateb yn emosiynol i'r ymddygiadau, efallai fydd angen peth amser arnon ni i reoli ein hymateb emosiynol cyn i ni ymateb.
- Rydym yn mynd i'r afael â phob sefyllfa gydag empathi, gan ystyried anghenion, cyd-destun ac amgylchiadau'r person ifanc.
- Rydym yn deg ac yn gymesur yn ein hymateb.

PEIDIWCH Â GWNEUD Y CANLYNOL:

- Ni fyddwn yn rhoi canlyniad pan fyddwn yn flin neu'n ddig - nid yw hynny'n annog bod yn gymesur.
- Nid ydym byth yn enwi nac yn cywilyddio'n gyhoeddus ddysgwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheolau - dim ond gwaethygu'r sefyllfa wnaiff hynny.
- Rhoi canlyniadau nad ydynt yn unol â'r polisi neu sy'n ceisio cael gwared ar gyfleoedd dysgu/cyfoethogi. Bydd hyn ond yn digwydd os yw'r plentyn yn peri risg i'w ddiogelwch ei hun neu eraill ac mewn ymgynghoriad â Thîm Arwain yr Ysgol.

**Llefydd diogel**

Ymgysylltu â dysgu yw ein prif nod bob amser. Er rydym yn sylweddoli bod yna achlysuron pan fydd angen i ddisgyblion gael rhywfaint o amser/lle i fyfyrio a/neu reoli eu hemosiynau. Yn yr achosion hyn, rydym yn hoffi cynnig cyfle i ddisgyblion brofi rhywfaint o 'Amser i Mewn' mewn lle diogel.
Nod y lle hwn yw cefnogi disgybl gyda'r broses reoleiddio emosiynol. Rydym yn deall y gallai hyn fod oherwydd anghenion synhwyraidd/eraill.

Gellid darparu ar gyfer hyn o fewn yr ystafell ddosbarth lle bynnag y bo'n bosib. Gall rhai amgylchiadau gyfiawnhau bod disgybl yn treulio amser y tu allan i'r dosbarth, ac yn rhan fel arfer o ymateb cymorth emosiynol/ymddygiad cynlluniedig.
Gallai hyn fod yn amser byr wedi'i gynllunio i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth gydag oedolyn sydd ar gael yn emosiynol mewn gofod tawel a fydd yn amrywio o safle i safle e.e. ystafell ddosbarth/ymyrraeth ar wahân, ystafell synhwyraidd neu ofod awyr agored. Rydym yn cydnabod mai dyma'r amser i ddarparu cefnogaeth i'r dysgwr trwy ei helpu i reoleiddio ac ailosod e.e. egwyl symud, cerdded a siarad, cyd-reoleiddio ac ati.

Bydd pa mor hir sydd ganddynt yn y cyfnod hwn o 'amser i mewn' yn seiliedig yn gyfan gwbl ar amgylchiadau a / neu anghenion pob unigolyn. Os yw disgybl yn derbyn y lefel hon o gefnogaeth, yna bydd hyn yn cael ei gofnodi yn y ddogfennaeth briodol. h.y. Cynllun Ymddygiad Cadarnhaol, Asesiad Risg ac ati.

Cymorth gan y tîm arweinyddiaeth.

Os yw aelod o staff yn pryderu am ymddygiad disgybl neu os oes achos difrifol o dorri rheolau wedi bod, yna dylid cysylltu ag uwch-aelod o staff ar unwaith.

Gall achosion difrifol o dorri'r rheolau gynnwys:

- Bwlio neu fygwth
- Ymddygiad ymosodol yn eiriol yn erbyn disgyblion neu staff
- Ymddygiad ymosodol yn erbyn disgyblion a/neu staff (poeri, cnoi, cicio, bwrw ac ati)
- Achosion o Hiliaeth neu Ragfarn
- Difrod bwriadol i eiddo ysgol

Bydd pob sefyllfa yn unigryw ac felly'n cael ei hystyried fesul achos fel rhan o'r broses brysbennu.
Bydd arweinwyr (mewn ymgynghoriad â thîm y dosbarth) yn:

- Ystyried a yw anghenion, dealltwriaeth a chyd-destun y plentyn wedi cyfrannu at yr ymddygiad (gofyn am fwy o wybodaeth gan rieni/gofalwyr, gweithwyr proffesiynol eraill os yw'n briodol)
- Ystyried sbardunau ac adolygu a diwygio'r cynllun ymddygiad yn ôl yr angen i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu.
- Ystyried ein hymateb graddedig ac a oes angen gwneud addasiadau rhesymol pellach i ddiwallu anghenion (asesu, cynllunio, adolygu)
- Ystyried a oes angen cymorth bugeiliol pellach neu atgyfeiriadau allanol.
- Ystyried unrhyw anghenion sydd heb eu diagnosio neu unrhyw asesiadau angenrheidiol pellach.
- Ystyried a yw canlyniadau'n deg/cyfreithlon ar ôl ystyried y ffactorau uchod.